



Medi 2020

Annwyl fyfyrwr/fyfyrwraig

Fel Cyfarwyddwr y Rhaglen Astudiaethau Addysg Gynradd hoffwn eich croesawu i Brifysgol Metropolitan Caerdydd a'r Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol. Pwrpas y llythyr hwn ydy rhoi ychydig mwy o wybodaeth i chi am y cwrs y byddwch chi'n cychwyn arno eleni.

Bydd yr Wythnos Sefydlu yn cychwyn ddydd Llun 28^{ain} Medi ac rydym wedi llunio cyfres o weithgareddau i'ch helpu chi i ddod i adnabod y Brifysgol, eich rhaglen astudio, y rhai eraill sydd ar eich cwrs a'r staff fydd yn eich dysgu chi. Rhagwelir y bydd y gweithgareddau hyn ar ffurf sesiynau wyneb-yn-wyneb a rhithwir.

Neilltuir Tiwtor Personol i bob myfyrwr newydd a fydd yn eich cefnogi trwy gydol eich taith dwy Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae darparu cefnogaeth o ansawdd uchel i chi yn bwysig i ni a byddwch yn cwrdd â'ch tiwtor personol yn ystod yr Wythnos Sefydlu. Os byddai'n well gennych Diwtor Personol sy'n siarad Cymraeg, rhowch wybod i mi cyn i chi gyrraedd er mwyn i mi allu trefnu hyn ar eich rhan. Bydd staff o'r adran gwasanaethau myfyrwr hefyd ar gael i roi cyngor i chi ar ystod o faterion.

Mae gennym hefyd ystod o gyfleoedd cyffrous sydd ar gael ichi yn ystod eich astudiaethau, gan gynnwys: Lleoliadau Gwaith, Astudio Dramor, Cymdeithasau, Clybiau Iaith a Gwirfoddoli. Bydd cyfleoedd hefyd ar eich cwrs i ennill cymwysterau ychwanegol, er enghraifft, Ymarferydd yn yr Ysgol Goedwig. Mae gennym hefyd sawl tîm chwaraeon yn aros i chi ymuno â nhw. Gallwch gael gwybodaeth am y cyfleoedd hyn yn ystod Ffair y Glas ddydd Mercher 30^{ain} Medi.

Gofalwch eich bod yn ymrestru ar-lein yma www.cardiffmet.ac.uk/Enrolment CYN I CHI DDOD i'r brifysgol ar yr 28^{ain}.

Rydw i'n edrych ymlaen at eich cyfarfod ar ddydd Llun Medi 28^{ain} ar Gampws Cyncoed am 9:00 y bore yn Ystafell C020. Os na allwch chi fynychu'r sesiynau wyneb i wyneb ar ddydd Llun, cysylltwch â mi ar khodgkin@cardiffmet.ac.uk.

Dr. Kieran Hodgkin
Uwch Ddarlithydd mewn Astudiaethau Addysg
Cyfarwydd y Rhaglen BA (Anrh) Astudiaethau Addysg Gynradd



CROESO 2020

AMSERLEN WYTHNOS SEFYDLU

TEITL Y CWRS: **ASTUDIAETHAU ADDYSG GYNRADD (DWYIEITHOG) (GRŴP WM)**

CAMPWS: **CYNCOED**

DYDD LLUN 28 MEDI <i>MONDAY 28th SEPTEMBER</i>	DYDD MAWRTH 29 MEDI <i>TUESDAY 29th SEPTEMBER</i>	DYDD MERCHER 30 MEDI <i>WEDNESDAY 30th SEPTEMBER</i>	DYDD IAU 1 HYDREF <i>THURSDAY 1st OCTOBER</i>	DYDD GWENER 2 HYDREF <i>FRIDAY 2nd OCTOBER</i>
<p>09.00 – 10.00 Croeso i Astudiaethau Addysg Gynradd Ystafell C020</p> <p>10.00 – 12.00 Cyfarfodydd Tiwtor Personol</p>	<p>14.00 – 16.00 Profiad y Goedwig AAG gyda grŵp dysgu Y Ganolfan Dysgu Awyr Agored</p>	<p>Digwyddiadau Rhithiol gan eich Undeb Myfyrwyr</p>	<p>10.00 – 12.00 Sesiynau Tiwtor Personol i'r Unigolyn</p>	